

Cyngor Rhyddhau

Tympanotomi

+/- Ossiculoplasti

Tympanotomi +/- Ossiculoplasti

Mae tympanotomi yn disgrifio'r driniaeth o fynd mewn modd llawdriniaethol i'r ardal yn ddwfn i dympan y glust (mae hyn yn golygu codi tympan y glust). Fe'i perfformir fel arfer i wirio'r esgyrn o'r enw osiglau (esgyrn bach sy'n danfon sain o dympan y glust i ran fewnol synhwyrdd y glust o'r enw cochlea). Mae ossiculoplasti yn cael ei berfformio i geisio atgyweirio esgyrn bach y glust (osiglau). Gwneir hyn fel arfer i adfer clyw mewn achos o erydiad neu amhariad yr esgyrn bach.

Mae yna 3 math cyffredin o ddulliau llawfeddygol o ran llawdriniaeth tympanotomi ac ossiculoplasti. Mae'r rhain yn cynnwys cyn-awriglaidd (clwyf o flaen y glust), ôl-awriglaidd (clwyf y tu ôl i'r glust), ac yn treiddio drwy'r gamlas (yn uniongyrchol drwy gamlas y glust). Efallai y bydd gan gleifion rhwymyn pen ar ôl llawdriniaeth. Cyn cael eich rhyddhau o'r ysbyty, bydd unrhyw rwymyn pen yn cael ei dynnu gan y tîm meddygol. Ar yr adeg yma bydd y clwyf yn cael ei wirio am unrhyw broblemau. Os gewch chi'r llawdriniaeth fel achos dydd, cewch gyngor ar sut i gael gwared â'r rhwymyn eich hun y diwrnod canlynol.

Fe'ch hysbysir os oes gennych chi bwythau y gellir eu toddi neu nad oes modd eu toddi a bod angen eu tynnu. Gall eich nyrs practis meddyg teulu dynnu pwythau (fel rheol 7 diwrnod ar ôl y llawdriniaeth). Bydd angen i chi wneud apwyntiad gyda'ch nyrs practis meddygon teulu er mwyn trefnu hyn.

Mae'n bwysig cadw'r glust yn sych ar ôl llawdriniaeth. Yn arbennig, osgowch olchi gwallt nes bod unrhyw bwythau wedi'u tynnu. Efallai yr hoffech roi cynnig ar siampŵ sych os yw eich gwallt yn teimlo'n seimllyd. Mae'n bwysig hefyd cadw camlas y glust yn sych ar ôl y llawdriniaeth trwy ddefnyddio darn o wlân cotwm â Vaseline pan yn y bath/cawod. Peidiwch â rhoi eich pen dan ddŵr.

Pe bai eich clwyf yn llidiog neu'n dechrau agor ar ôl y llawdriniaeth, bydd angen eich gweld yn yr ystafell driniaeth ENT neu gan y meddyg teulu. Mae manylion cyswllt yr ystafell driniaeth ENT ar y daflen hon.

Pecyn gamlas y glust:

Fel arfer, gosodir pecyn yng nghamlas y glust ar ôl llawdriniaeth er mwyn dal yr impiad yn ei le ac i leihau'r risg o haint. Gall pecynnau fod naill ai yn ewyn y gellir ei

thoddi neu becyn BIPP na ellir ei thoddi (rhwyllen rubanog sy'n lliw melyn). Yn aml, defnyddir mwy nag un darn o bacio.

Yn anaml gall ymateb alergaidd i becyn ddigwydd. Fel arfer bydd hyn yn bresennol ar ffurf chwyddo a phoen o gwmpas gamlas y glust. Os ddigwydd hyn, cysylltwch â'r ystafell driniaeth ENT/eich ward derbyn er mwyn trefnu i'r clust gael ei asesu gan y meddyg ENT ar alwad. Efallai y bydd angen tynnu'r pecyn ynghyd â mewnosod math gwahanol o becyn.

Pe bai'r rhwyllen rubanog yn dechrau dod allan o gamlas y glust, peidiwch â'i wthio yn ôl na'i dynnu allan. Defnyddiwch siswrn i dorri'r pen rhydd.

Cyfnod adfer:

Mae poen ac anghysurdeb yn tueddu i fod yn ysgafn ac fel arfer mae'n gwella o fewn wythnos. Byddwch yn cael cyngor ar leddfu poen cyn i'ch nyrs eich rhyddhau. Mae'r rhan fwyaf o gleifion angen 2-3 wythnos i ffwrdd o'r gwaith/ysgol er mwyn dod dros y llawdriniaeth. Ni argymhellir codi pwysau trwm/straenio/ymarfer egniol yn ystod y cyfnod hwn.

Hedfan:

Ni ddylech hedfan am 3 mis yn dilyn y llawdriniaeth.

Vertigo:

Gall rhai cleifion deimlo'n pen ysgafn/profiad o deimlad bod yr ystafell yn troi ar ôl llawdriniaeth. Ni ddylech yrru nes bod hyn yn sefydlogi. Fel arfer caiff ei ddatrys o fewn ychydig ddyddiau.

Blasu:

Mae'r nerf blasu yn rhedeg ar draws tympan y glust a gellir ei ymestyn/ei symud er mwyn i'r llawdriniaeth gael ei berfformio. Gall hyn achosi newid yn y modd y byddwch yn blasu a fydd fel arfer yn sefydlogi o fewn ychydig fisoedd.

Colli clyw a methiant y driniaeth :

Nod ossiculoplasti yw ail-greu clyw. Weithiau nid yw hyn yn bosibl o ganlyniad i ganfyddiadau anarferol ar adeg y llawdriniaeth na ellid eu rhagfynegi cyn y llawdriniaeth. At hynny, mae mecanwaith clyw yn hynod o sensitif. Weithiau ar ôl y math hwn o lawdriniaeth gall y clyw waethygu, ac yn yr achosion gwaethaf fe all gael ei niweidio'n barhaol. Mae'r siawns o hyn yn digwydd yn isel.

Ôl-driniaeth:

Fe ddylech chi gael eich gweld yn y clinig claf allanol tua 3 wythnos ar ôl y llawdriniaeth. Ar yr adeg yna, bydd unrhyw becynnau camlas y glust na ellir eu toddi yn cael eu tynnu. Os defnyddiwyd pecyn y gellir ei thoddi, mae'n debygol y bydd angen glanhau camlas y glust drwy sugno. Os na fyddwch chi'n derbyn yr apwyntiad hwn, ffoniwch y swyddfa archebu apwyntiad cleifion allanol ar 01495 765055.

GWYBODAETH RHYDDHAU MEWN ARGYFWNG

09:00 i 17:00 Llun-Gwener (ac eithrio gwyliau banc): Cysylltwch ag ystafell Driniaeth ENT ar 01633 234018

Ar ôl 17:00/dros nos (oedolion): C0 01633 493926.

Ar ôl 17:00/dros nos (plant): C1 01633 493609.

Mewn achos brys, ewch i'ch adran Damweiniau ac Argyfwng agosaf.

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English"